PHILIPPS (TEULU), Pictwn, Sir Benfro

Rhywbryd cyn 17 Hydref 1491 priododd Syr THOMAS PHILIPPS, Cilsant, Sir Gaerfyrddin, â Joan Dwnn, merch ac aeres Harry Dwnn (mab Owen Dwnn, Mwdlwsgwm, Cydweli, a Catherine Wogan, ail ferch John Wogan a gweddw Syr Henry Wogan) a Margaret, merch a chydaeres Syr Henry Wogan, Cas-gw s. Honnai teulu Cilsant eu bod yn disgyn o Gadifor Fawr, Blaen Cych, a Syr Aaron ap Rhys, y croesgadwr. Yr oedd Syr Thomas Philipps yn fab i Phillip Philipps ac yn yr i Meredith Philipps, Cilsant. Bu'n ysgwïer yng ngwasanaeth Harri VII, ac apwyntiwyd ef yn un o stiwardiaid ac yn rhysyfwr ('receiver') arglwyddiaethau Llansteffan ac Ystlwyf, 16 Mai 1509. Ar 7 Medi 1509 apwyntiwyd ef yn grwner ac ysiedwr ('escheater') Sir Benfro ac arglwyddiaeth Hwlffordd. Yn rhyfel Ffrengig 1513 yr oedd yn gapten ar gant o w r ac urddwyd ef yn farchog y flwyddyn honno. Apwyntiwyd ef yn siryf Sir Benfro a beili llys ('bailiff in eyre') arglwyddiaeth Hwlffordd 16 Hydref 1516. Yr oedd yn noddwr i Lewis Glyn Cothi. Bu farw cyn 8 Rhagfyr 1520 pan ddilynwyd ef gan ei fab JOHN PHILIPPS, gwas ystafell i'r brenin, fel stiward Llansteffan ac Ystlwyf a chrwner ac ysietwr Sir Benfro ac arglwyddiaeth Hwlffordd. Priododd ef ag Elisabeth ferch Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn. Adeg ei apwyntio 10 Ebrill 1532 yn un o stiwardiaid a rhysyfwyr maenor Rhys ap Gruffudd ar ôl ei ddifreinio, yr oedd yn stiward o siambr y brenin. Yr oedd yn siryf Sir Benfro yn 1542. Ymddiddorai ei fab, Richard (ganwyd 1535), mewn llenyddiaeth Gymraeg (gweler Pen. MS. 155). Bu farw ddydd lau ar ôl g yl Feugan, 1551 (gweler Pen. MS. 17b (397); *W. Wales Hist. Records*, vii, 161-4), a dilynwyd ef gan ei fab WILLIAM PHILIPPS, priod Janet Perrot, chwaer Syr John Perrot. Priododd ei ferched ag Alban Stepney a George Owen, Henllys. Cynrychiolodd sir Benfro yn y Senedd yn 1559 a 1572, ac ef oedd arweinydd yr wrthblaid wleidyddol i blaid Syr John Perrot yn Sir Benfro. Bu farw 14 Mawrth 1573, ac etifeddwyd ei stadau yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin gan ei frawd MORGAN PHILIPPS (bu farw c. 1585). Ar ôl diddymu ei briodas â gwraig William Scourfield, priododd hwn ag Elisabeth ferch Richard Fletcher, cofrestrydd Bangor. Bu'n siryf Sir Benfro yn 1576. Gwnaed ei fab, Syr JOHN PHILIPPS, yn farwnig 8 Tachwedd 1621, a phriododd (1) ag Anne, ferch Syr John Perrot; (2) a Margaret, ferch Syr Thomas Dennys o Bicton, Dyfnaint. Yr oedd ei holl blant o'r briodas gyntaf. Bu'n aelod seneddol dros sir Benfro yn 1597 a 1601, a hyrwyddodd y mesur er cynnwys arglwyddiaeth Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin (*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1942, 13). Ef oedd siryf Sir Benfro yn 1595 a 1611, a siryf Sir Gaerfyrddin yn 1623. Noddodd waith llenyddol Robert Holland, a chyflwynodd yntau ei lyfr cyntaf i'w wraig, Anne Philipps. Yr oedd yn gapten milwyr Daugleddau ('Dungleddy'). Bu farw yng Nglog-y-frân, ei gartref yn Sir Gaerfyrddin, 27 Mawrth 1629, a chladdwyd ef yn Slebets. Priododd ei fab, Syr RICHARD PHILIPPS, (1) ag Elisabeth, merch Erasmus Dryden, barwnig, taid y bardd, John Dryden; (2) â Catherine ferch Daniel Oxenbridge, M.D. Ymladdodd o blaid y Senedd yn y Rhyfel Cartrefol, ac amddiffynnodd gastell Pictwn. Cymerwyd y castell gan y Brenhinwyr, 30 Ebrill 1644, a charcharwyd ei blant.

Y 3ydd barwnig ydoedd ei fab, Syr ERASMUS PHILIPPS, a briododd (1) â'r arglwyddes Cicely Finch, ferch Thomas, iarll Winchilsea, (2) â Catherine, merch a chydaeres Edward D'Arcy, Newhall, swydd Derby; priododd eu merch Margaret â Griffith Jones, Llanddowror a phriododd merch arall iddynt, Elisabeth ' â John Shorter, marsiandwr o Lundain. Catherine ferch Elisabeth a John Shorter ydoedd gwraig Syr Robert Walpole. Bu ei fab, EDWARD (bu farw 1694), yn siryf Sir Benfro yn 1691. Dilynodd Syr Erasmus gamre gwleidyddol ei dad a bu'n aelod seneddol dros sir Benfro 1654-5, a thrachefn Ionawr-Ebrill 1659. Bu'n siryf Sir Benfro yn 1655, ac apwyntiwyd ef yn gynullydd y milisia yn Ne Cymru 14 Mawrth 1654. Bu farw 18 Ionawr 1697 a dilynwyd ef gan Syr John Philipps, y 4ydd barwnig.

Y 5ed barwnig ydoedd mab y diwethaf, Syr ERASMUS PHILIPPS, yr ysgrifennwr ar economeg (gweler y *D.N.B.*). Ymaelododd yng Ngholeg Pembroke, Rhydychen, 4 Awst 1720, yn 20 oed, a derbyniwyd ef yn Lincoln's Inn 7 Awst 1721. Yr oedd yn aelod o gyngor cyffredin Hwlffordd a chynrychiolodd y dref yn y Senedd, 1726-43. Bu'n siryf Sir Gaerfyrddin yn 1727. Cyhoeddwyd ei bedwar traethawd ar economeg, 1726-51. Boddodd gerllaw Bath, yn Hydref 1743. Dilynwyd ef gan ei frawd, Syr JOHN PHILIPPS, pleidiwr Iago II. Ymaelododd yng Ngholeg Pembroke, Rhydychen, 4 Awst 1720, yn 19 oed, a gwnaed ef yn D.C.L. 12 Ebrill 1749. Yn ddiweddarach astudiodd y gyfraith. Priododd ag Elisabeth ferch Henry Shepherd, Llundain, 22 Medi 1725. Yr oedd yn Dori rhonc - ' a notorious Jacobite ' (Horace Walpole) - ac yn aelod o gymdeithas y 'Sea Serjeants.' Bu'n aelod seneddol dros Gaerfyrddin 1741-7, Petersfield, 1754-61, a sir Benfro, 1761-4, a gwnaed ef yn Gyfrin Gynghorwr 10 Ionawr 1763. Yn 1736 gwnaed ef yn faer Hwlffordd, lle'r oedd yn gynghorwr. Yr oedd hefyd yn gynghorwr a chofiadur Caerfyrddin. Cefnogodd addysg leol, a sefydlodd ysgoloriaethau yng Ngholeg Pembroke, Rhydychen, yn 1749. Bu farw 22 Mehefin 1764. Dyrchafwyd ei frawd, Syr RICHARD PHILIPPS, y 7fed barwnig, yn arglwydd Milford yn y bendefigaeth Wyddelig, 22 Gorffennaf 1776. Ymaelododd yng Ngholeg Pembroke, Rhydychen, 3 Chwefror 1761. Priododd ag Elisabeth ferch James Philipps, Pentyparc, yn 1764. Cynrychiolodd sir Benfro yn y Senedd fel Tori, 1765-70, 1786-1812, Plymton 1774-9, a Hwlffordd 1784-6. Penodwyd ef yn ' custos rotulorum ' Hwlffordd yn 1764 ac yn arglwydd-raglaw yn 1770; ac yn 1786 penodwyd ef yn ' custos rotulorum ' ac arglwydd-raglaw Sir Benfro. Bu farw 28 Tachwedd 1823 yn ddi-blant, ac etifeddwyd y stad gan ei gefnder, RICHARD BULKELEY PHILLIPPS GRANT (1801 - 1857) a fabwysiadodd y cyfenw Philipps ac a wnaed yn farwn Milford o Castell Pictwn yn 1847. Bu farw'n ddi-blant, a disgynnodd ei stadau i'w hanner brawd, y Parch. JAMES HENRY ALEXANDER PHILIPPS (gynt Gwyther) (bu farw 1875). Dilynwyd ef gan ei fab-yng-nghyfraith Syr CHARLES EDWARD GREGG PHILIPPS (gynt Fisher), a wnaed yn farwnig yn 1887. Disgynnodd yr urdd farwnig a stad Pictwn i'w fab, Syr HENRY ERASMUS EDWARD PHILIPPS (1871 - 1938) ac yna i'w fab yntau, Syr JOHN ERASMUS GWYNNE ALEXANDER PHILIPPS (1915 - 1948). Wedi marw'r arglwydd Milford yn 1823 disgynnodd yr urdd farwn i berthynas iddo.

Awdur

Dr Bertie George Charles, (1908 - 2000)

Ffynonellau

M. M. Philipps, *The History of the Family of Philipps of Picton* (Llundain 1906)

B. Ll. Morris (gol.), *The Slebech Story* (Hwlffordd 1948), 52-71

Burke's ... Peerage, Baronetage, and Knightage

James Allen, *Notes on the Sheriffs of Pembrokeshire, 1541-1899* (Dinbych 1900)

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

West Wales Historical Records (1910–29), vii, 161-4

Letters and Papers, Foreign and Domestic, of the Reign of Henry VIII - Eliz.

A. L. Leach, *History of the Civil War (1642-49) in Pembrokeshire and on its borders* (Llundain 1937)

J. F. Rees, *Studies in Welsh History collected papers, lectures and reviews* (Caerdydd 1947), 85

Alumni Oxonienses

Llawysgrifau Castell Pictwn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Ll.G.C.

Darllen Pellach

Archifau LlGC: To the Electors of the County of Pembroke... 1885

Delweddau

J. Austin Jenkins, W. T. Pike (gol.), Sir Charles Edward Gregg Philipps, Bart., *South Wales and Monmouthshire at the opening of the twentieth century: Contemporary biographies* (Brighton 1907), t.186

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q16932754

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu